Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar gyfer y Bil Iechyd Meddwl

Mehefin 2025

## 1. Y cefndir

**1.** Cafodd y Bil Iechyd Meddwl ("y Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 6 Tachwedd 2024. Yn gryno, nod y Bil yw moderneiddio Deddf Iechyd Meddwl 1983 gyda'r nod o roi mwy o ddewis, ymreolaeth, hawliau a chymorth i gleifion.

**2.** Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("Memorandwm Rhif 1")[1] mewn cysylltiad â'r Bil gerbron y Senedd ar 21 Tachwedd 2024. Yna, gosododd Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ("Memorandwm Rhif 2")[2] ar 10 Ionawr 2025. Ystyriodd y Pwyllgor y ddau femorandwm yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror a gosododd ei adroddiad[3] ar 3 Ebrill 2025.

## 2. Memorandwm Rhif 3

**3.** Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall ("Memorandwm Rhif 3")[4] ar 8 Ebrill 2025. Cafodd ei gyfeirio at y Pwyllgor a'r dyddiad cau i gyflwyno adrodd arno oedd 27 Mehefin 2025.

---

[1] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Iechyd Meddwl
[2] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2): Y Bil Iechyd Meddwl
[3] Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Iechyd Meddwl
[4] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3): Y Bil Iechyd Meddwl

**4.** Trafododd y Pwyllgor Femorandwm Rhif 3 yn ei gyfarfod ar 5 Mehefin 2025.

## Darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

**5.** Mae Memorandwm Rhif 3 yn gofyn am gydsyniad ar gyfer nifer o welliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'w hystyried yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Derbyniwyd y gwelliannau hynny wedi hynny, ac maent yn ymwneud â'r darpariaethau a ganlyn o'r Bil fel y'u diwygiwyd yng nghyfnod y Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi:

- **Cymal 18**: sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â therapi electrogynhyrfol;
- **Cymal newydd ar ôl cymal 18**: sy'n galluogi cyfweliadau neu archwiliadau o dan adran 119 o Ddeddf 1983 i gael eu cynnal o bell ar gyfer rhai triniaethau;
- **Atodlen 2**: sy'n ymwneud â'r darpariaethau 'Personau Enwebedig' yn y Bil;
- **Cymal 53**: sy'n ymwneud â'r weithdrefn i'w chymhwyso i wneud rheoliadau.

**6.** Darperir rhagor o fanylion am y gwelliannau a restrir uchod ym mharagraff 9 o Femorandwm Rhif 3.

## Barn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am gydsyniad

**7.** Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod angen cydsyniad ar gyfer y gwelliannau i gymalau 18, y cymal newydd ar ôl cymal 18, cymal 53 ac Atodlen 2 i'r Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod y Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno â'r safbwynt hwn.

**8.** Nodwyd yn flaenorol fod y cymalau hyn yn ymwneud â'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ym Memorandwm Rhif 1 a Rhif 2. Fel y'u diwygiwyd, maent yn parhau i wneud darpariaeth berthnasol mewn perthynas â Chymru sy'n ystyried mater 'iechyd y cyhoedd' sydd wedi'i ddatganoli, fel y mae'r cymal newydd ar ôl cymal 18.

## Safbwynt Llywodraeth Cymru ar Femorandwm Rhif 3

**9.** Ym Memorandwm Rhif 3, mae'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn datgan bod y rhesymau a roddwyd ganddi yn flaenorol i gefnogi'r Bil Iechyd

Meddwl yn dal i sefyll, ac yn berthnasol hefyd i'r darpariaethau newydd sy'n cael eu cynnig.

**10.** Unwaith eto, mae hi'n tynnu sylw bod "llawer iawn o ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir ar y ddwy ochr i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr", gan ddweud:

> *"Byddai peidio â gwneud darpariaethau yn y Bil hwn yn creu risg o fwy o wahaniaethau rhwng y gwasanaethau sydd ar gael yn y ddwy wlad."*[5]

**11.** Nododd hefyd:

> *"mae'r cyfnodau cadw a'r hawliau i wneud cais i'r tribiwnlys yn fesurau diogelu allweddol o ran amddiffyn hawliau unigolion sy'n ddarostyngedig i Ddeddf 1983. Hoffwn felly achub ar y cyfle hwn i roi'r newidiadau hynny ar waith yma yng Nghymru yn unol â dull gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella hawliau unigolion yng Nghymru."*[6]

**12.** Barn y Gweinidog, o hyd, yw:

> *"Er bod y Bil hwn yn rhoi sylw i faterion datganoledig, mae hefyd yn gwneud darpariaeth o ran materion a gedwir yn ôl. Rwyf felly yn ystyried bod deddfu drwy Fil gan Lywodraeth y DU yn cynnig y dull gweithredu mwyaf cydlynol ar gyfer y darpariaethau a gyflwynir yn y ddeddfwriaeth hon."*[7]

## Goblygiadau ariannol

**13.** Mae'r Gweinidog yn cadarnhau bod goblygiadau ariannol y Bil yn parhau fel y'u nodir ym Memorandwm Rhif 1, gyda chyfanswm y costau (Cymru a Lloegr) ar gyfer y cyfnod asesu 20 mlynedd wedi'u hamcangyfrif yn £5.7 biliwn. Mae cyfanswm y costau i Gymru dros y cyfnod o 20 mlynedd yn parhau i gael eu hamcangyfrif yn £425 miliwn ar draws y sectorau iechyd, tai a gofal cymdeithasol.[8]

[5] Memorandwm Rhif 3, paragraff 14
[6] Memorandwm Rhif 3, paragraff 15
[7] Memorandwm Rhif 3, paragraff 16
[8] Memorandwm Rhif 3, paragraffau 17-18

**14.** Mae'r Gweinidog yn ailadrodd ei safbwynt blaenorol, pe bai'r Senedd yn rhoi cydsyniad i'r memorandwm hwn, "byddai hyn ar sail cyllid canlyniadol gan Lywodraeth y DU i gynnal y gwaith gweithredu".[9]

## Ein barn ni

**15.** Wrth lunio barn ar Femorandwm Rhif 3, rydym am ailadrodd y pwyntiau a wnaethom yn ein hadroddiad ar y memoranda cydsyniad blaenorol ar gyfer y Bil hwn ynghylch y dewis o lwybr deddfwriaethol ar gyfer y polisi hwn. Mae defnyddio Bil y DU yn hytrach na Bil Cymru i wneud y newidiadau sylweddol hyn i'r gyfraith yng Nghymru o ran iechyd meddwl yn anochel yn golygu bod cyfleoedd i Aelodau o'r Senedd ystyried a herio yn gyfyngedig iawn, fel y mae'r cyfleoedd i ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru. Rydym yn ystyried bod hyn yn anfoddhaol iawn.

**16.** Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr angen i foderneiddio deddfwriaeth bresennol yn y maes hwn, ac rydym yn parhau ar y cyfan i gefnogi'r bwriadau polisi y tu ôl i'r Bil. Er gwaethaf ein pryderon ynghylch y dewis o gyfrwng deddfwriaethol i gyflawni'r newid polisi hwn, nid ydym yn gweld unrhyw reswm pam na ddylai'r Senedd gefnogi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn.

**Casgliad 1.** Nid ydym yn gweld unrhyw reswm pam na ddylai'r Senedd gefnogi Memorandwm Rhif 3 ar gyfer y Bil Iechyd Meddwl.

[9] Memorandwm Rhif 3, paragraff 19